Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Jiwbilî Ddeimwnt

*13/06/2012*

Annwyl

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 31 Mai, pan wnaethoch ofyn:

*Beth oedd y cyfanswm a wariwyd ar gomisiynu'r sgrôl i'r Frenhines i goffáu ei Jiwbilî Ddeimwnt, gan gynnwys ymchwilio i ddarpar galigraffwyr, eitemau coffaol eraill, ac unrhyw gopïau o'r sgrôl?*

Cost y sgrôl goffaol a gomisiynwyd yn arbennig i'w hanfon at Ei Mawrhydi y Frenhines ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru i goffáu ei Jiwbilî Ddeimwnt oedd £980, heb gynnwys TAW. Mae'r broflen a gaiff ei harddangos yn y Senedd ar hyn o bryd wedi'i rhoi yn garedig iawn gan Ieuan Rees, y caligraffydd.

Yn unol â gweithdrefnau caffael y Cynulliad Cenedlaethol, cysylltwyd â thri chaligraffydd yng Nghymru i ganfod a oeddent ar gael i wneud y gwaith ac yn addas i'w wneud. Cyflawnwyd y gwaith ymchwil hwn gan unigolyn a oedd wedi comisiynu gwaith caligraffi proffesiynol o'r blaen, ac a oedd felly â gwybodaeth dda am y grefft arbenigol hon.

Mynegodd dau arlunydd ddiddordeb, a dewiswyd rhyngddynt drwy asesu eu portffolios a'r gost yr oedd y ddau galigraffydd hyn wedi'i nodi am wneud y gwaith.

Nid ystyriodd y Cynulliad unrhyw eitem goffaol arall.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm. Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8215
E-bost/Email:Alison.Rutherford@cymru.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/help/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**